OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 Rhif 197 (Cy.40)

# ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

## Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Eiddo Heb ei Feddiannu) (Cymru) (Diwygio) 2011

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *24 Ionawr 2011* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *2 Chwefror 2011* |
| *Yn dod i rym - -* | *28 Chwefror 2011* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 45(1)(d), (9) a 146(6) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**).

**Enwi, cymhwyso a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Eiddo Heb ei Feddiannu) (Cymru) (Diwygio) 2011 a deuant i rym ar 28 Chwefror 2011.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru ar gyfer blynyddoedd ariannol sy'n dechrau ar ac ar ôl 1 Ebrill 2011.

**Eiddo sy'n atebol am ardrethi eiddo heb ei feddiannu**

**2.** Yn rheoliad 4(e) o Reoliadau Ardrethu Annomestig (Eiddo Heb ei Feddiannu) (Cymru) 2008(**3**), yn lle "£2,200" rhodder "£2,600".

(**1**) 1988 p.41.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol a geir yn Neddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672, erthygl 2, Atodlen 1). Yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 i'r Ddeddf honno, mae'r swyddogaethau hynny wedi eu breinio yng Ngweinidogion Cymru.

(**3**) O.S. 2008/2499 (Cy.217).

*Carl Sargeant*
Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a
Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru

24 Ionawr 2011

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

O dan adran 45 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 ("Deddf 1988") mae ardrethi annomestig yn daladwy ar hereditament sydd heb ei feddiannu os yw'n bodloni'r amodau a bennir yn adran 45(1). Mae'r amodau hynny'n cynnwys amod bod yr hereditament yn dod o fewn dosbarth rhagnodedig.

Mae Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Eiddo Heb ei Feddiannu) (Cymru) 2008 yn rhagnodi dosbarth o hereditamentau heb eu meddiannu y mae ardrethi'n daladwy arnynt. Mae'r dosbarth hwnnw'n cynnwys pob hereditament heb ei feddiannu, os nad oes yr un o'r amodau yn rheoliad 4 yn gymwys iddo.

Mae rheoliad 4 yn eithrio o'r atebolrwydd am ardrethi annomestig o dan adran 45 o Ddeddf 1988 pob hereditament a ddangosir mewn rhestr ardrethu annomestig, sydd â'i werth ardrethol yn llai na swm penodedig. Mae'r Rheoliadau hyn yn pennu mai £2,600 fydd y swm hwnnw ar gyfer hereditament a ddangosir yn y rhestr o 1 Ebrill 2011 ymlaen.

Mae asesiad effaith rheoleiddiol wedi ei baratoi mewn cysylltiad â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi ohono yn http:www.cynulliadcymru.org/bus-home/buslegislation/bus-legislation-sub.